# Nodiadau cefndir i athrawon

Argymhellir eich bod yn edrych dros yr holl nodiadau cefndir cyn dechrau ar y sesiynau hyn, gan y gall fod cwestiynau sy'n codi lle mae'r wybodaeth sydd ei hangen wedi ei chynnwys yn nodiadau sesiwn ddiweddarach.

Lansiwyd y prosiect Researching Women's Collective Action (WCA) yn 2009 gan Oxfam, gyda chyllid gan y Bill a Melinda Gates Foundation. Casglodd yr ymchwil dystiolaeth ar sut y gall gweithredu cyfunol wella incwm tyddynwyr sy'n fenywod, cryfhau eu hasedau a chynyddu eu grymuso.

Mae tyddynnwr yn rhywun sy'n rhedeg fferm fechan. Mewn gwledydd fel y rhai a astudiwyd yn y prosiect hwn, mae'r fferm fel arfer yn cynnal un teulu gyda chymysgedd o gnydau i'w gwerthu a ffermio cynhaliaeth (tyfu yr hyn sydd ei angen ar y teulu er mwyn goroesi).

Roedd yr ymchwilwyr yn awyddus i archwilio pedwar cwestiwn allweddol:

- Sut mae tyddynwyr sy'n fenywod yn elwa o weithredu cyfunol?
- Sut mae gweithredu cyfunol yn helpu menywod i oresgyn rhwystrau'r farchnad?
- Pa fenywod sy'n cymryd rhan mewn gweithredu cyfunol a phwy sydd wedi'u heithrio?
- Pa strategaethau sydd fwyaf defnyddiol i sicrhau buddiannau i ffermwyr sy'n fenywod?

### Beth yw WCA?

Mae Gweithredu Cyfunol gan Fenywod (WCA) yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gweithredu gwirfoddol, parhaus gan grŵp i gyflawni buddiannau cyffredin. Er enghraifft, undebau ffermwyr a chwmnïau cydweithredol (lle mae ffermwyr yn cronni eu hadnoddau mewn gweithgareddau penodol megis rhannu peiriannau ac offer neu farchnata'u cynnyrch); cymdeithasau cynilion a chredyd (mae'r rhain yn tueddu i fod yn grŵp o bobl sy'n cynilo a benthyg gyda'i gilydd, sef math o fancio a benthyca cyfoedion-i-gyfoedion); grwpiau ffermwyr ymestynnol (lle mae ffermwyr yn dysgu oddi wrth ffermwr mwy profiadol neu'r rhai sydd ag arbenigedd mewn meysydd penodol).

Roedd y grwpiau a astudiwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol, o'r un rhyw ac yn gymysg. Mae grwpiau ffurfiol yn cael eu cofrestru yn gyfreithiol ac fel arfer mae ganddynt is-ddeddfau ysgrifenedig. Nid yw grwpiau anffurfiol drwy ddiffiniad yn cael eu cofrestru yn gyfreithiol. Mae grwpiau sy'n gwerthu i farchnadoedd penodol yn aml yn ffurfiol oherwydd yr angen i gymryd rhan mewn contractau a rhwymedigaethau ariannol.

## Grymuso menywod

Mae mwyafrif y bobl sy'n byw mewn tlodi yn fenywod. Mae menywod yn gweithio dwy ran o dair o'r oriau gwaith yn y byd ac yn cynhyrchu hanner y bwyd yn y byd, ac eto maent yn ennill 10% yn unig o incwm y byd ac yn berchen ar lai nag 1% o'r eiddo yn y byd, yn ôl Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig. Y duedd yw bod ganddynt lai o adnoddau, llai o hawliau, a llai o gyfleoedd i wneud penderfyniadau sy'n llunio'u bywydau na'r hyn sydd gan ddynion. Mae yna lawer o resymau, sy'n aml yn gymhleth, dros pam nad yw menywod yn cyrraedd eu llawn botensial. Ymhlith y rhwystrau mwyaf ceir trais yn y cartref, gwahaniaethu, a diffyg addysg. Mae gwaith trwm ac anghyfartal yn y cartref a gwaith gofalu, sy'n cael eu hystyried yn aml yn gyfrifoldeb 'naturiol' i fenywod, hefyd yn rhwystro ymdrechion i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Mae sgiliau, gwydnwch, penderfyniad, a dyfeisgarwch menywod yn adnoddau gwerthfawr i oresgyn tlodi, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigon o bell ffordd. Mae grymuso menywod yn ymwneud â'u galluogi i wneud y mwyaf o'r sgiliau hyn fel y gallant gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a bod yn weithgar yn economaidd. Canlyniad grymuso menywod yw lleihau tlodi.

Manteision grymuso a fesurwyd yn y prosiect WCA oedd y rhai a oedd yn caniatáu menywod i gynyddu eu rheolaeth dros rannau hollbwysig o'u bywydau yn y cartref, y gymuned, a'r economi.

## Grymuso menywod yn economaidd

Mae grymuso menywod yn economaidd yn golygu bod menywod yn ennill grym economaidd a chymdeithasol i symud allan o dlodi. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu newid agweddau a chredoau i alluogi perthynas gyfartal â dynion ac mewn gwneud penderfyniadau economaidd, gan sicrhau bod menywod yn cael mynediad at adnoddau economaidd, a gwella eu gallu i farchnata eu cynnyrch.

Mae menywod sy'n cynhyrchu ar raddfa fach yn ganolog i ddiwallu'r galw cynyddol byd-eang am fwyd ac maent yn ymwneud yn gynyddol â marchnadoedd amaethyddol mewn gwledydd sy'n datblygu. Ond, o'u cymharu â dynion, mae menywod yn aml yn wynebu mynediad gwael i'r gwasanaethau a'r adnoddau sydd eu hangen i gystadlu mewn marchnadoedd amaethyddol. O ganlyniad, nid yw eu cyfranogiad mewn marchnadoedd o reidrwydd yn arwain at gynnydd mewn incwm a rheolaeth dros asedau.

Fel rhan o ymchwil y WCA, nododd menywod sy'n ymwneud â grwpiau gweithredu cyfunol y cyfyngiadau allweddol i'w hymgysylltiad â marchnadoedd ac asesu pa rai yr oedd gweithredu cyfunol yn mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys:

- **Meintiau isel neu ansawdd isel o ran cynhyrchu:** eir i'r afael â hyn drwy hyfforddiant mewn technegau cynhyrchu gwell, a mwy o fynediad at offer neu gyllid.
- **Sgiliau busnes, trefniadaeth a gwybodaeth am farchnadoedd annigonol:** mae grwpiau gweithredu cyfunol yn darparu hyfforddiant, mynediad at wybodaeth, posibiliadau ar gyfer cyfnewid, a chynyddu cysylltiadau gydag ystod eang o ddylanwadau allanol.
- **Diffyg marchnadoedd diogel:** mae'r cyfyngiad hwn yn cael ei oresgyn drwy gysylltiadau â mentrau cydweithredol ac undebau arbenigol a/neu drwy sefydlu perthynas â phrynwr penodol.

Mae cyfyngiadau a nodwyd na eir i'r afael â hwy yn effeithiol gan grwpiau gweithredu cyfunol presennol yn cynnwys:

- **Cludo nwyddau i'r farchnad:** mae cwmnïau cydweithredol yn prynu nwyddau o bentrefi yn mynd i'r afael yn rhannol yn unig â'r heriau y mae menywod yn eu hwynebu o ran cael nwyddau i'r farchnad.
- **Mynediad at dir i fenywod i gynhyrchu a marchnata yn annibynnol:** anaml yr eir i'r afael yn uniongyrchol â hyn gan grwpiau gweithredu cyfunol. Cafodd ychydig o achosion eu hadrodd (yn bennaf yn Mali) lle mae gweithredu cyfunol wedi bod yn allweddol wrth alluogi menywod i gael mynediad at dir.
- **Rhwystrau cymdeithasol, gan gynnwys symudedd menywod:** nid yw'n ymddangos bod ymyraethau gweithredu cyfunol yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r rhwystrau a osodir ar fenywod gan eu gwŷr o ran ymgysylltu â marchnadoedd.
- **Diffyg amser menywod oherwydd cyfrifoldebau teuluol:** mae hyn yn parhau i fod yn rhwystr i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithredu cyfunol i wella ymgysylltiad â marchnadoedd. Mae grwpiau menywod yn darparu'n well ar gyfer hyn, oherwydd eu bod yn fwy hyblyg ac yn ymatebol i anghenion menywod, ond ni nodwyd mentrau penodol i fynd i'r afael â'r mater.

## Yr Ymchwil

Dewisodd Oxfam sector amaethyddol ym mhob un o'r tair gwlad yn Affrica: Ethiopia, Tanzania a Mali. Edrychodd yr astudiaeth ar gynhyrchu menywod a chael mynediad at farchnadoedd o fêl yn Ethiopia, menyn shea yn Mali a llysiau yn Tanzania. Mae'r adnodd yn rhoi cyfle i ddysgwyr astudio data ansoddol a meintiol o Ethiopia.

## Methodoleg

Ymgymerwyd â dadansoddi data ansoddol (data a gasglwyd ar safbwyntiau a disgrifiadau) a meintiol (data a gasglwyd y gellir eu mesur ac sy'n ymwneud â rhifau). Dadansoddodd yr ymchwil ansoddol bedwar ar ddeg o astudiaethau achos o WCA yn fanwl ar draws y tair gwlad. Roedd y dadansoddiad meintiol yn seiliedig ar arolygon o 300 o leiaf o aelodau WCA a 600 nad oeddent yn aelodau fesul gwlad, gan gymharu manteision economaidd a grymuso rhwng menywod oedd yn cymryd rhan yn y grwpiau a'r rhai nad oeddent mewn grwpiau yn masnachu yn yr un sector.

# Sesiwn 1: Casglu data yn Ethiopia

## Ethiopia

Dros y degawd diwethaf, mae Ethiopia wedi dod yn un o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yn Affrica, a'r sector amaethyddol sy'n arwain y twf economaidd hwn. Mae cadw gwenyn yn weithgaredd economaidd pwysig, gan gyflogi hyd at ddwy filiwn o bobl, ac mae'r sector mêl bellach yn elwa o fuddsoddiad gan y llywodraeth. Fodd bynnag, er mai Ethiopia yw'r cynhyrchwr mwyaf o fêl yn Affrica, mae'r cynhyrchu presennol wedi'i gyfyngu i 43,000 tunnell o fêl a 3,000 tunnell o gwyr gwenyn yn unig, sef tua 10% o'r allbwn posibl ('Ethiopian Central Statistical Authority Report', 2009). Yn y cyfamser, yn fyd-eang, mae galw mawr a chynyddol am fêl, yn ogystal ag ar gyfer cwyr gwenyn a chynnyrch gwenyn eraill.

Yn Ethiopia, mae menywod yn chwarae rhan weithredol mewn amaethyddiaeth deuluol, ac mae 21% o'r holl aelwydydd yn cael eu harwain gan fenywod (Banc y Byd, 'Well-Being and Poverty in Ethiopia: the role of agriculture and agency', Report No. 29468-ET, 2005). Fodd bynnag, tan yn ddiweddar ychydig iawn o gydnabyddiaeth gyhoeddus y maent wedi'i chael fel ffermwyr. Mae rhwystrau strwythurol, megis baich trwm gwaith caled yn y cartref, wedi'u hatgyfnerthu gan ganfyddiadau diwylliannol lleol, wedi cyfyngu ar gyfranogiad menywod mewn gweithgareddau ymestynnol amaethyddol swyddogol (hyfforddiant). Yn ogystal, mae diffyg mynediad menywod at dir, cyllid, technoleg a'r pŵer i wneud penderfyniadau wedi amharu'n llwyr ar eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau proffidiol yn y farchnad.

Cynhaliwyd ymchwil y WCA yn Dangila a Mecha woredas (adran weinyddol trydedd lefel) yn Amhara, rhanbarth yn ucheldiroedd gogledd-orllewinol Ethiopia, ardal sy'n gyfrifol am bron i 25% o gyfanswm cynhyrchu mêl y wlad ('Ethiopian Central Agricultural Census Commission (CAAC) Report', 2003). Cychod gwenyn traddodiadol yw'r brif dechnoleg o hyd (96%), er gwaethaf y ffaith eu bod yn cynhyrchu llai o gynnyrch mêl, a hynny o ansawdd is na chychod gwenyn mwy newydd. Oherwydd mynediad cyfyngedig i'r farchnad, mae cynhyrchwyr yn tueddu i werthu eu mêl yn lleol am bris isel.

Y prif fath o weithredu cyfunol a gydnabyddir yn Amhara yw'r 'brif fenter gydweithredol ffermwyr amlbwrpas'. Mae'r mentrau cydweithredol hyn yn darparu mynediad at fewnbynnau a gwasanaethau, yn ogystal â chymorth marchnata. Mae 42 o fentrau cydweithredol mêl yn Amhara, gyda chyfartaledd o 10 o aelodau benywaidd (S. Baden 'Women's collective action in African Agricultural Markets: The missing link for empowerment?' 2013). Yn y cyfamser, yn y ddwy fenter gydweithredol a astudiwyd yn fanwl, sef menter gydweithredol Agunta yn Dangila woreda, a menter gydweithredol Meserethiwot yn Mecha woreda, mae bron hanner yr aelodau yn fenywod (49% a 45% yn y drefn honno).

## Nodweddion mêl

- Mae tri math: gwyn, melyn a choch (mae'r lliw yn dibynnu ar flodau a'r ffordd mae'r cychod yn cael eu trin). Nid yw'r cynnyrch posibl eraill, fel cwyr gwenyn a chynnyrch cychod gwenyn, yn cael eu hecsbloetio ar hyn o bryd.
- Cynhyrchwyd o gychod gwenyn modern a thraddodiadol (95% yn fras). Mae ansawdd y mêl yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar y pris a mynediad at y farchnad.

- Cynaeafu tair gwaith y flwyddyn, yn bennaf yn ystod y tymor gwlyb.
- Mae 87% o'r cynnyrch yn cael ei ddefnyddio fel diodydd (er enghraifft, tej - sef gwin mêl). Marchnad ryngwladol fach, ond un sy'n ehangu.

## Sesiwn 2: Grwpiau gweithredu cyfunol, plotio gwasgariad a maint y sampl

### Grwpiau Gweithredu cyfunol

Mae'r grwpiau a ddisgrifiwyd yn y daflen i  ddysgwyr D: *Grwpiau Gweithredu Cyfunol* yn fersiynau symlach o'r mathau o grwpiau a gafwyd gan ymchwilwyr yn y tair gwlad a astudiwyd. Mewn gwirionedd, roedd 15 o wahanol fathau o grwpiau yr oedd menywod yn perthyn iddynt.

Y diffiniad o weithredu cyfunol a ddefnyddir gan dîm ymchwil Oxfam yw:  *gweithredu parhaus, gwirfoddol gan grŵp i gyflawni buddiannau cyffredin*.

Yn yr astudiaeth hon, canolbwyntiodd Oxfam ar grwpiau â phwrpas a rennir mewn perthynas â marchnad yn hytrach na grwpiau oedd yn bennaf yn grefyddol, cymdeithasol neu wleidyddol. Roedd gan y grwpiau gweithredu cyfunol naill ai swyddogaeth mewn cadwyn farchnad ee cynhyrchu neu brosesu, neu yn darparu gwasanaethau i alluogi mynediad at y farchnad ee credyd, trafnidiaeth a hyfforddiant.

### Effaith Grwpiau WCA

Roedd effeithiau cadarnhaol pwysig i fenywod a oedd yn rhan o grwpiau gweithredu cyfunol. Dyma oedd prif gasgliad ystadegol ystyrlon yr astudiaeth.

Nid oes unrhyw un math o grŵp sydd o'r budd mwyaf i fenywod; mae menywod yn cael eu grymuso mewn gwahanol feysydd, o wahanol fathau o grwpiau, ac mae effeithiau grymuso yn aml yn gryfach o ganlyniad i effaith gyfun bod yn aelod o fwy nag un grŵp.

Mae cysylltiadau rhwng grwpiau ffurfiol ac anffurfiol yn chwarae rôl arwyddocaol mewn ymgysylltiad menywod mewn grwpiau gweithredu cyfunol. Mae grwpiau anffurfiol yn aml yn helpu menywod i ddatblygu sgiliau arwain ac adeiladu cynilion, tra bod aelodau grwpiau ffurfiol yn aml yn cael mwy o fynediad at fewnbynnau (fel cyllid neu offer) a gwasanaethau, ac yn ymgysylltu'n fwy effeithiol â marchnadoedd.

Er bod manteision economaidd yn aml yn uwch mewn grwpiau cymysg o ganlyniad i fwy o adnoddau, rhwydweithiau a mynediad at drafnidiaeth, mae grwpiau menywod yn unig yn caniatáu i fenywod ddatblygu sgiliau a hyder, a chymryd rhan yn effeithiol mewn grwpiau cymysg. Gall grwpiau menywod yn unig neu grwpiau dan arweiniad menywod osgoi adfeddu buddiannau gan ddynion (nid yw hyn yn anghyffredin mewn grwpiau cymysg lle y dynion yn bennaf sy'n cymryd y rolau arweiniol). Mae adfeddu buddiannau yn golygu bod dynion yn cael yr holl fanteision neu'r mwyafrif o fanteision o fod yn y grŵp, fel talu'r elw ychwanegol iddyn nhw'u hunain neu gymryd cyfleoedd hyfforddi.

### Data

Sylwer bod y data ar gyfer y sesiwn hon wedi eu trosi i rifau cyfan, i'w gwneud yn haws i ddysgwyr weithio gyda nhw.

## Sesiwn 3: Defnyddio grwpiau gweithredu cyfunol i ddeall mesurau canolduedd

Mae'r graff a ddangosir ar sleid 10 yn sioe sleidiau 3 wedi cael ei addasu i ddarparu graff cliriach a symlach i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 3 i'w ddehongli. Mae'r categori o fenywod na wnaethant gynhyrchu unrhyw fêl wedi cael ei ddileu oherwydd fel arall yr argraff yw nad oedd llawer o ffermwyr wedi cynhyrchu unrhyw beth o gwbl. Mae'r allanolynnau hefyd wedi cael eu dileu, fel bod maint y graff bar ar gyfer data wedi'u grwpio yn gliriach ar gyfer dysgwyr yn y grŵp oedran hwn. Roedd y menywod hynny a gynhyrchodd symiau llawer uwch o fêl yn gweithio ar gyfer ffermydd masnachol yn hytrach na ffermio teuluol ar raddfa fach. Nid oedd cynifer o fenywod yn y categori hwn ac roeddent yn gweithio mewn sefyllfa wahanol, felly i gadw'r data'n symlach ar gyfer dysgwyr rydym wedi eu dileu.

## Sesiwn 4: Cymharu cyfoeth menywod mewn grwpiau gweithredu cyfunol

### Mynegai Cyfoeth

Mae'r mynegai cyfoeth yn fesur cyfansawdd o safon byw cronnus aelwyd. Mae'r mynegai cyfoeth yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio data am eiddo, da byw a nodweddion tai aelwydydd, megis a oes ganddynt do glaswellt neu dun.

Mae'r data yn yr astudiaeth hon yn dangos cyfoeth cymharol yn unig. Mewn geiriau eraill, mae'r menywod cyfoethog yn yr astudiaeth ond yn gyfoethog o'u cymharu â'r menywod eraill yn yr arolwg, ac maent yn dal i fod yn llawer tlotach na'r rhan fwyaf o fenywod yn y DU.

Mae safon byw cronnus yn golygu cyfrif holl enillion ac eiddo pawb yn yr aelwyd.

### Siartiau Cylch

Dylai siartiau cylch gael eu defnyddio ar gyfer newidynnau mewn categorïau, nid data parhaus. Uchafswm nifer y sectorau neu gategorïau a argymhellir yw chwech. Felly, pan fydd dysgwyr yn categoreiddio data, dylent ddefnyddio dim mwy na chwe chategori. Gallai fod yn werth trafod gyda dysgwyr ai siartiau cylch yw'r ffordd orau o arddangos y data ar flynyddoedd, data addysg neu'r mynegai cyfoeth.

## Sesiwn 5: Oedran a blynyddoedd o brofiad menywod mewn grwpiau gweithredu cyfunol

### Histogramau neu siartiau bar?

Mae histogramau yn cael eu defnyddio i gynrychioli data parhaus. Gall data parhaus gael eu mesur ar raddfa, a gall fod yn unrhyw rif ar hyd y raddfa honno. Mae oedran a chyfoeth yn enghreifftiau o ddata parhaus.

Mae siartiau bar yn cael eu defnyddio i gynrychioli data arwahanol. Gall data arwahanol gymryd gwerthoedd penodol yn unig. Mae nifer y plant a faint o fêl a gynhyrchir yn ddwy enghraifft o ddata arwahanol.

Mae oed yn ddata parhaus, a byddai yn gyffredinol yn cael ei ddangos ar histogram. *Fodd bynnag*, weithiau mae data parhaus yn cael eu grwpio mewn categorïau. Ar gyfer data wedi'u grwpio mewn categorïau, mae siartiau bar yn briodol.

Mae creu siart bar yn defnyddio'r data oedran yn y wers hon yn achos 'arbennig' ac mae angen ei egluro i ddysgwyr.

Y gynrychiolaeth ddelfrydol o'r data oedran sy'n cael eu defnyddio yn y wers hon fyddai histogram cefn wrth gefn. Fodd bynnag, oherwydd y gallai hyn fod yn anodd i lawer o fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 3 gallai siart bar cymhariaeth fod yn ddewis amgen derbyniol.

## Sesiwn 6: A oedd menywod yn well eu byd o ganlyniad i grwpiau gweithredu cyfunol?

Ar y cyfan, canfu'r astudiaeth fod perthyn i grŵp gweithredu cyfunol yn gadarnhaol ar gyfer y menywod a holwyd. Roedd yr astudiaeth hefyd yn awyddus i gael gwybod a oedd effaith ar rymuso menywod ac felly defnyddiwyd y Mynegai Grymuso Menywod a ddisgrifir isod.

Er mwyn deall y berthynas rhwng aelodaeth o grŵp gweithredu cyfunol a grymuso menywod, defnyddiodd y dadansoddiad fesurau ar gyfer yr wyth o ddangosyddion grymuso a gafwyd yn unol â gweithdrefn a addaswyd o fethodoleg y Mynegai Grymuso Menywod mewn Amaethyddiaeth, a ddatblygwyd gan y Sefydliad Ymchwil Rhyngwladol ar Bolisi Bwyd, Sefydliad Datblygiad Dynol a Thlodi Rhydychen a USAID.

## Wyth dimensiwn o rymuso

| Dimensiwn / dangosydd | Diffiniad o 'ddigonolrwydd' yn y dimensiwn hwn |
|---|---|
| Gwneud penderfyniadau mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth | Mae'r atebydd yn ddigonol os oes ganddi fewnbwn 'sylweddol' mewn penderfyniadau neu'n teimlo'n 'alluog iawn' i wneud penderfyniadau yn O LEIAF DAU barth sy'n gysylltiedig â gweithgareddau amaethyddol. |
| Gwneud penderfyniadau ar incwm o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth | Mae'r atebydd yn ddigonol os oes ganddi fewnbwn 'sylweddol' mewn penderfyniadau incwm neu'n teimlo'n 'alluog iawn' i wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag incwm amaethyddiaeth, ac eithrio penderfyniadau ar fân wariant yn y cartref. |
| Perchnogaeth asedau | Mae'r atebydd yn ddigonol os bydd yn berchen ar, yn unigol neu ar y cyd, O LEIAF dau ased mawr (tir amaethyddol, da byw, offer amaethyddol mecanyddol, tai, nwyddau defnyddwyr parhaol mawr, ac ati) neu fwy na thri ased (os yw un o'r rheini yn ased bach, megis dofednod, offer ffermio nad yw'n fecanyddol, a nwyddau defnyddwyr parhaol bach), allan o gyfanswm o 15 o gategorïau o asedau'r cartref. |
| Hawliau penderfynu dros asedau amaethyddol | Mae'r atebydd yn ddigonol os bydd yn berchen ar, yn unigol neu ar y cyd, O LEIAF UN hawl yn O LEIAF DAU ased amaethyddol sy'n eiddo i'r cartref. |
| Gwneud penderfyniadau ar fynediad at gredyd | Mae'r atebydd yn ddigonol os bydd ar y cyd yn gwneud O LEIAF UN penderfyniad ynghylch O LEIAF UN ffynhonnell o gredyd. |
| Gwneud penderfyniadau ar wariant y cartref | Mae'r atebydd yn ddigonol os oes ganddi fewnbwn 'sylweddol' mewn penderfyniadau incwm neu yn teimlo ei bod yn gallu gwneud penderfyniadau ar sut i ddefnyddio incwm o un ffynhonnell o leiaf, AC yn cynnwys mwy na dim ond mân ddewisiadau gwariant yn y cartref. |
| Rhyddid i symud y tu hwnt i'r cartref | Mae'r atebydd yn ddigonol os oes ganddi ryddid i ymweld yn annibynnol ag o leiaf dau le (allan o bum opsiwn gwahanol) y tu mewn neu'r tu allan i'r pentref, heb gynnwys tŷ ffrindiau a pherthnasau. |
| Rhyddid i fynychu cyfarfodydd grŵp | Mae'r atebydd yn ddigonol os oes ganddi'r rhyddid i fynd i o leiaf un lle i fynychu cyfarfodydd grŵp (grwpiau ffurfiol ac anffurfiol). |

OXFAM

## Siart Grymuso Menywod *(gellir ei weld ar sleid 6 yn sioe sleidiau 6)*

Mae hwn yn cymharu menywod sy'n aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau ar gyfer pob dangosydd digonolrwydd, lle mae digonolrwydd yn cael ei ddiffinio fel cyflawni lefel isafswm trothwy o safbwynt gwneud penderfyniadau, rheolaeth, a rhyddid.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod perthynas anwastad rhwng parthau aelodaeth a grymuso WCA, yn ogystal ag amrywiad ar draws y gwledydd. Nid yw'n glir iawn yn Ethiopia bod menywod sy'n perthyn i grwpiau gweithredu cyfunol â mwy o rym na'r rhai nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau. Roedd canlyniadau o'r gwledydd eraill yn yr astudiaeth hon yn llai amwys, er enghraifft, yn Mali roedd perthynas gryfach rhwng menywod sy'n perthyn i grwpiau a grymuso. Hefyd, mae rhai perthnasoedd yn ddyrys megis y berthynas negyddol rhwng aelodaeth o grwpiau a'r rhyddid i fynychu cyfarfodydd grwpiau yn Ethiopia.

Dangosodd ymchwil astudiaethau achos ansoddol, ar y llaw arall, fod cymryd rhan mewn gweithredu cyfunol gan fenywod yn arwain at lefelau amrywiol o well statws ar lefel aelwyd a chymuned ar draws bron pob grŵp yn yr astudiaeth.

**Taflen waith dysgwyr P: Effaith Grwpiau Gweithredu Cyfunol ar Rymuso Menywod yn Ethiopia**

Pwynt 2 – mae gan fenywod sy'n aelodau o grwpiau gweithredu cyfunol gynnyrch o ansawdd uwch ac maent yn gwneud mwy o'u cynnyrch. Daethpwyd i'r casgliad hwn mewn perthynas â'r tair gwlad a astudiwyd (Ethiopia, Tanzania a Mali).

# Partneriaid y prosiect

### Think Global

Mae Think Global yn elusen addysg sy'n helpu pobl i ddeall materion byd-eang. Rydym yn sefyll dros fyd mwy cyfiawn a chynaliadwy. Rydym yn credu y mwyaf o bobl sy'n deall materion byd-eang, megis tlodi a hawliau dynol, y mwyaf tebygol y maent o wneud penderfyniadau gwell yn eu bywydau personol a phroffesiynol.
Gall athrawon ymuno â Rhwydwaith Ysgolion Think Global - www.globaldimension.org.uk/network/ - a derbyn diweddariadau bob hanner tymor ar adnoddau a digwyddiadau ar gyfer addysgu am faterion byd-eang, ynghyd â phecynnau gweithgaredd a syniadau y gallwch eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

### Oxfam UK

Mae Oxfam yn fudiad byd-eang o filiynau o bobl sy'n rhannu'r gred, mewn byd sy'n llawn o adnoddau, nid yw tlodi yn anochel. Mewn dim ond 15 mlynedd, mae tlodi eithafol wedi cael ei haneru. 15 mlynedd yn rhagor a gallwn ddod â'r tlodi hwn i ben am byth.

I ledaenu'r newid hwnnw a sicrhau ei fod yn para, mae angen atebion gwleidyddol hefyd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a chreu cymdeithasau lle gall unigolion grymus ffynnu. Byddwn bob amser yn gweithredu, byddwn yn lleisio'n barn, ac ni fyddwn yn byw gyda thlodi.

### Mathematical Association

Mae'r MA yn cael ei redeg gan aelodau ar gyfer aelodau o'i bencadlys yng Nghaerlŷr a chaiff ei reoli gan Gyngor o tua 19 o aelodau'r MA. Ond mae calon yr MA yn ei gyhoeddiadau, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau, a'i weithgareddau eraill, sy'n cynnig cyfle amhrisiadwy i athrawon sydd â diddordeb i weithio gyda'i gilydd ar bynciau o ddiddordeb cyffredin - gwaith sydd yn aml yn arwain at gyhoeddiadau, adnoddau neu ddogfennau trafod ar gyfer y gymuned ehangach.
Gwefan: http://www.ma.org.uk/history

## Mathematics in Education and Industry

Mae Mathematics in Education and Industry (MEI) yn elusen ac yn sefydliad aelodaeth. Mae'n gorff datblygu cwricwlwm annibynnol ar gyfer mathemateg.

Mae MEI yn cynnig i athrawon yr holl fanylebau TGAU, Mathemateg Graidd a Safon Uwch ystod o gyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus, yn darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer myfyrwyr ac yn gweithio gyda'r diwydiant i wella sgiliau mathemategol yn y gweithle. Mae MEI hefyd yn arloesi datblygu adnoddau dysgu ac addysgu arloesol, gan gynnwys deunyddiau ar-lein helaeth i gefnogi'r holl brif feysydd llafur arholi.
Gwefan: www.mei.org.uk


## Gyda diolch i ...

Yr holl ysgolion ac athrawon a helpodd i dreialu'r adnoddau hyn. Yn benodol:
Adran Ddaearyddiaeth Ysgol Ramadeg Torquay i Ferched.

## Darparwyd cyllid ar gyfer y prosiect hwn gan Sefydliad Nuffield

*Mae Sefydliad Nuffield yn ymddiriedolaeth elusennol waddoledig sy'n anelu at wella lles cymdeithasol yn ei ystyr ehangaf. Mae'n ariannu ymchwil ac arloesedd ym maes polisi cymdeithasol ac addysg, ac yn gweithio i feithrin gallu mewn ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, gwyddoniaeth ac addysg. Er bod y prosiect hwn wedi'i ariannu gan Sefydliad Nuffield, safbwyntiau awduron ac nid o reidrwydd y Sefydliad yw'r rheini a fynegir. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.nuffieldfoundation.org*